Cais am weithgarwch wedi'i eithrio Rhan F – taliadau a godir, datganiadau ac ati

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Environment Agency Wales

Llenwch y rhan hon o'r ffurflen ar gyfer pob cais.

Darllenwch drwy'r ffurflen hon a'r nodiadau canllaw a ddaeth gyda hi.

Cynnwys

1 Talu
2 Deddf Diogelu Data 1998
3 Cyfrinachedd a diogelwch gwladol
4 Datganiad
5 Sut i gysylltu â ni
6 Ble i anfon y ffurflen

1 Talu

Ticiwch isod er mwyn dangos sut byddwch yn talu.

Siec ☐
Ewch i adran 1i

Archeb bost ☐
Ewch i adran 1i

Arian parod ☐
Ewch i adran 1i

Cerdyn credyd neu ddebyd ☐
Ewch i adran 1ii

Trosglwyddiad electronig (er enghraifft, BACS) ☐
Ewch i adran 1 iii

i Talu trwy siec, archeb bost neu arian parod

Manylion siec neu archeb bost:

Gwnaed y siec neu archeb bost yn daladwy i _____

Rhif y siec neu archeb bost _____

Swm £ _____

Dylech wneud sieciau neu archebion post yn daladwy i 'Environment Agency' neu 'Environment Agency Wales' fel bo'n addas a dylid eu marcio 'A/c Payee'.

Ysgrifennwch enw eich cwmni a rhif cyfeirnod (gall hyn fod yn gyfeirnod y cwsmer neu gyfeirnod yr eithriad) neu eich enw, cyfeiriad a chod post ar gefn eich siec neu archeb bost.

Ni fyddwn yn derbyn sieciau ôl-ddyddiedig.

Nid ydym yn argymell anfon arian parod drwy'r post. Os nad allwch osgoi hyn, defnyddiwch ddosbarthiad wedi'i gofnodi ac amgáu manylion ynghylch enw eich cwmni a rhif cyfeirnod (gall hyn fod yn gyfeirnod y cwsmer neu gyfeirnod eithriad) neu eich enw, cyfeiriad a chod post.

Nawr darllenwch adran 2.

ii Talu trwy gerdyn credyd neu ddebyd

Os ydych yn talu trwy gerdyn credyd neu ddebyd, cwblhewch y ffurflen ar wahân CC1. Byddwn yn dinistrio manylion eich cerdyn unwaith ein bod wedi prosesu eich taliad. Gallwn dderbyn taliadau â cherdyn Visa, MasterCard neu Maestro yn unig.

Nawr darllenwch adran 2.

iii Talu trwy drosglwyddiad electronig

Os ydych yn dewis talu trwy drosglwyddiad electronig ac rydych yn gwneud cais am eithriad yn **rhanbarth AA Cymru**, bydd angen i chi ddefnyddio'r wybodaeth ganlynol er mwyn gwneud eich taliad.

Enw'r cwmni	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Cyfeiriad y cwmni	Blwch Swyddfa'r Post 663, Caerdydd, CF24 0TP
Banc	Barclays Bank Plc
Cyfeiriad	15 Queen Square, Bristol, BS1 4NP
Cod didoli	20-13-42
Rhif cyfrif	00440108
Rhif cyfeirnod taliad	xxxxxxxxxxxxx

1 Talu, parhad

Dylech, yn ogystal, anfon e-bost â'ch manylion talu a rhif cyfeirnod (gall hyn fod yn gyfeirnod y cwsmer neu gyfeirnod eithriad) neu eich enw, cyfeiriad a chod post i online@environment-agency.wales.gov.uk neu ffacsiwch ef i 02920 466404.

Os ydych yn gwneud eich taliad o du allan i'r Deyrnas Unedig (y mae'n rhaid iddo gael ei dderbyn yn sterling), ein rhif IBAN yw GB42 BARC2013 4200 4401 08 a'n rhif SWIFTBIC yw BARC GB22.

Os nad ydych yn dyfynnu eich rhif cyfeirnod (gall hyn fod yn gyfeirnod y cwsmer neu gyfeirnod eithriad) neu eich enw, cyfeiriad a chod post, gall fod oediad o ran prosesu eich taliad a'ch cais.

Os ydych yn dewis talu trwy drosglwyddiad electronig ac rydych yn gwneud cais am eithriad ar gyfer **rhanbarth (Seisnig) arall**, bydd angen i chi ddefnyddio'r wybodaeth ganlynol i wneud eich taliad.

Enw'r cwmni	Environment Agency
Cyfeiriad y cwmni	Income Dept 311, PO Box 263, Peterborough, PE2 8YD
Banc	Barclays Bank Plc
Cyfeiriad	15 Queen Square, Bristol, BS1 4NP
Cod didoli	20-13-42
Rhif cyfrif	20744646
Rhif cyfeirnod y taliad	xxxxxxxxxxxxx

Dylech, yn ogystal, e-bostio eich manylion talu a'r rhif cyfeirnod ((gall hyn fod yn gyfeirnod y cwsmer neu gyfeirnod eithriad) neu eich enw, cyfeiriad a chod post i banking@environment-agency.gov.uk neu ei ffacsio i 01733 464892.

Os ydych yn gwneud eich taliad o du allan i'r Deyrnas Unedig (y mae'n rhaid iddo gael ei dderbyn yn sterling), ein rhif IBAN yw GB42 BARC2013 4220 7446 46 a'n rhif SWIFTBIC yw BARC GB22.

Os nad ydych yn dyfynnu eich rhif cyfeirnod (gall hyn fod yn gyfeirnod y cwsmer neu gyfeirnod eithriad) neu eich enw, cyfeiriad a chod post, gall fod oediad o ran prosesu eich taliad a'ch cais.

Nawr darllenwch adran 2.

2 Deddf Diogelu Data 1998

Byddwn ni, Asiantaeth yr Amgylchedd, yn prosesu'r wybodaeth a ddarparwch er mwyn i ni fedru:

- ymdrin â'ch cais;
- sicrhau eich bod yn cadw at amodau'r drwydded, caniatâd neu gofrestriad;
- prosesu adnewyddiadau; a
- diweddaru'r cofrestrau cyhoeddus.

Gallwn hefyd brosesu neu ryddhau'r wybodaeth er mwyn:

- cynnig dogfennau neu wasanaethau i chi yng nghyswllt materion amgylcheddol;
- ymgynghori â'r cyhoedd, cyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill (er enghraifft, yr Adran Weithredol Iechyd a Diogelwch, awdurdodau lleol, y gwasanaethau brys, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig) ar faterion amgylcheddol;
- gwneud gwaith ymchwil a datblygu ar faterion amgylcheddol;
- darparu gwybodaeth o'r gofrestr gyhoeddus i unrhyw un sy'n gofyn amdani;
- atal unrhyw un rhag torri'r gyfraith amgylcheddol, ymchwilio i achosion o dor-cyfraith amgylcheddol posibl, a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol;
- asesu p'un ai yw cwsmeriaid yn fodlon â'n gwasanaeth, ac er mwyn gwella ein gwasanaeth; ac
- ymateb i geisiadau am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (os yw'r Ddeddf Diogelu Data'n caniatáu hynny). Gallwn drosglwyddo'r wybodaeth ymlaen i'n hasiantau neu gynrychiolwyr i wneud y pethau hyn ar ein rhan.

Datgelu gwybodaeth a roddwch i ni yn yr hysbysiad hwn

Byddwn yn gosod rhywfaint o'r wybodaeth o'ch hysbysiad ar y gofrestr gyhoeddus:

- eich enw
- ble gwneir y gweithgarwch a
- manylion ynghylch y gweithgarwch.

Nawr darllenwch adran 3 isod.

3 Cyfrinachedd a diogelwch gwladol

Fel rheol, byddwn yn rhoi'r holl wybodaeth yn eich cais ar gofrestr gyhoeddus o wybodaeth amgylcheddol. Fodd bynnag, gallwn beidio â chynnwys gwybodaeth benodol yn y gofrestr gyhoeddus os yw hyn er budd diogelwch gwladol, neu oherwydd bod yr wybodaeth yn gyfrinachol.

Gallwch ofyn i wybodaeth gael ei chadw'n gyfrinachol trwy amgáu llythyr gyda'r cais yn rhoi eich rhesymau. Os ydym yn cytuno â'ch cais, rhown wybod i chi ac ni fyddwn yn cynnwys yr wybodaeth yn y gofrestr gyhoeddus. Os nad ydym yn cytuno â'ch cais, rhown wybod i chi sut i gyflwyno apêl yn erbyn ein penderfyniad neu gallwch dynnu eich cais yn ôl.

3 Cyfrinachedd a diogelwch gwladol, parhad

Gallwch ddweud wrth yr Ysgrifennydd Gwladol eich bod yn credu na fyddai cynnwys gwybodaeth ar gofrestr gyhoeddus er budd diogelwch gwladol. Rhaid i chi amgáu llythyr gyda'ch cais yn rhoi gwybod i ni eich bod wedi dweud wrth yr Ysgrifennydd Gwladol a rhaid i chi barhau i gynnwys yr wybodaeth yn eich cais. Ni fyddwn yn cynnwys yr wybodaeth yn y gofrestr gyhoeddus oni bai fod yr Ysgrifennydd Gwladol yn pennu y dylai gael ei chynnwys.

Cyfrinachedd

Cadwch yr wybodaeth yn fy nghais yn gyfrinachol, os gwelwch yn dda. ☐

Diogelwch gwladol

Credaf na fyddai cynnwys fy ngwybodaeth yn y gofrestr gyhoeddus er budd diogelwch gwladol. ☐

Nawr cwblhewch adran 4.

4 Datganiad

Rhaid i berson cyswllt y cais roi tic yn yr adran datganiad. Rhaid i berson cyswllt y cais fod y gweithredwr neu eu hasiant.

Mae person sy'n gwneud datganiad sy'n anghywir neu'n gamarweiniol gan wybod , neu'n fyrbwyll, er mwyn caffael cofrestriad (ar ei gyfer ei hun neu rywun arall) yn cyflawni trosedd o dan Reoliad 38 Rheoliadau Caniatáu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2007. Os ydych yn gwneud datganiad anghywir neu gamarweiniol

- gallwn eich erlyn ac
- os cewch eich dedfrydu'n euog, rydych yn agored i'ch dirwyo neu eich carcharu (neu'r ddau).

Datganaf fod yr wybodaeth a ddarparir ar y ffurflen hysbysu ac yn y ddogfennaeth atodol a ddarparwyd gyda'r ffurflen hysbysu hon yn gywir. ☐

Enw

Teitl (Mr, Mrs, Miss ac yn y blaen) _____

Enw cyntaf _____

Enw olaf _____

Dyddiad heddiw (DD/MM/BBBB) _____

5 Sut i gysylltu â ni

Os oes angen help arnoch i lenwi'r ffurflen hon. cysylltwch â'r sawl a'i hanfonodd atoch neu cysylltwch â ni yn y cyfeiriad a ddangosir isod.

Ymholiadau cyffredinol: 08708 506 506 (Dydd Llun i Ddydd Gwener 8yb i 6yp)

Ffôn testun: 08702 422 549 (Dydd Llun i Ddydd Gwener, 8yb i 6yp)

Ebost: enquiries@environment-agency.gov.uk

Gwefan: www.environment-agency.gov.uk

Os ydych yn fodlon â'n gwasanaeth, rhowch wybod i ni. Mae'n ein helpu i nodi arfer da ac yn annog ein staff. Os nad ydych yn fodlon, rhowch wybod i ni, os gwelwch yn dda, sut gallwn ei wella.

Dywedwch wrthym os ydych angen gwybodaeth mewn iaith wahanol neu fformat gwahanol (er enghraifft, print bras) er mwyn i ni fedru cadw mewn cysylltiad â chi'n haws.

6 Ble i anfon y ffurflen

Ar ôl i chi lenwi'r ffurflen, darllenwch drwyddi unwaith eto a sicrhau eich bod wedi

- ateb yr holl gwestiynau
- cynnwys yr holl ddogfennau mae angen i chi eu hanfon i ni a
- chynnwys y ffi gywir.

Anfonwch eich ffurflen wedi'u chwblhau a phob dogfen atodol i

Environment Agency
Permitting Support Centre
Quadrant 2
99 Parkway Avenue
Parkway Business Park
Sheffield
S9 4WF

Gallwch alw ein rhif ymholiadau cyffredinol hefyd am wybodaeth ar **08708 506 506.**

At ddefnydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn unig

Dyddiad derbyn (DD/MM/BBBB)

Ein rhif cyfeirnod

Derbyniwyd taliad?

Naddo ☐

Do ☐ Swm a dderbyniwyd

£